

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Adfywio canol trefi

Ionawr 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Adfywio canol trefi

Ionawr 2012



Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddu a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafndiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Nick Ramsay (Cadeirydd)
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Byron Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Keith Davies
Llafur Cymru
Llanelli



Julie James
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Alun Ffred Jones
Plaid Cymru
Arfon



Eluned Parrott
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



David Rees
Llafur Cymru
Aberavon



Ken Skates
Llafur Cymru
De Clwyd



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Leanne Wood
Plaid Cymru
Canol De Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Cyflwyniad	9
Yr Heriau.....	12
Manwerthu ar gyrion y dref.....	12
Archfarchnadoedd	16
Atebion	19
Strategaeth adfywio	19
Trafnidiaeth gynaliadwy ac integredig	21
Mynediad i geir a bywiogrwydd canol trefi.....	24
Canolfannau Teithio Cynaliadwy	27
Cysylltu economi'r dydd ac economi'r nos.....	28
Pwysigrwydd dyluniad da	30
Rôl awdurdodau lleol.....	33
Partneriaethau lleol ac ymgysylltu	35
Modelau ariannu arloesol.....	38
Rhyddhad Ardrethi Busnes	39
Arian Ewropeaidd	43
Ardaloedd Gwella Busnes.....	44
Marchnata a brandio.....	47
Mesur llwyddiant.....	48
Atodiad A - Cylch Gorchwyl Ymchwiliad	51
Atodiad B - Nodyn ar yr Ymweliad Ymchwiliol ag Arberth	52
Tystion.....	55
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	56

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol ar faterion economaidd, yn sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru yn diogelu canol trefi'n llwyr rhag effeithiau posibl datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi, ac y dylai'r Llywodraeth hefyd gymryd camau i wella'r broses o roi polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ar waith. (Tudalen 14)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud defnydd gwell o'u cytundebau â manwerthwyr ar gyrion trefi er mwyn diogelu bywiogrwydd canol trefi ymhellach. (Tudalen 15)

Argymhelliad 3. Credwn y dylid lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth hyrwyddo canol trefi yn ehangach, ac rydym yn argymhell bod Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn datblygu ei rôl yn y maes hwn, gan gynnwys addysgu ac annog gweithwyr proffesiynol yn y sector. (Tudalen 15)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu mwy o waith ymchwil ar effeithiau posibl archfarchnadoedd ar ansawdd canol trefi er mwyn llywio'r broses o ddadansoddi effaith datblygiadau arfaethedig o fewn y system rheolaeth gynllunio a'i gwella, ac y dylai asesiadau o'r effaith ar fanwerthwyr lleol fod yn orfodol mewn perthynas â chynigion archfarchnadoedd. (Tudalen 17)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog, o fewn eu Cynllun Datblygu Lleol, i ystyried datblygiadau swyddfa a gweithle fel modd i gynyddu nifer y bobl mewn canol trefi, ac y dylent asesu canlyniadau posibl cynigion ar gyfer datblygiadau swyddfa ar gyrion trefi, a dewisiadau amgen, yn fwy gofalus. (Tudalen 18)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu arweinyddiaeth Weinidogol benodedig ar gyfer canol trefi, gan

gynnwys sefydlu fforwm polisi canol trefi wedi'i gadeirio gan y Gweinidog arweiniol, a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion o Adrannau gwahanol a chynrychiolwyr allweddol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da a nodi cynllun gweithredu a fframwaith monitro ar gyfer adfywio canol trefi Cymru.

(Tudalen 21)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu trafndiaeth integredig a chynaliadwy yng nghanol trefi a dinasoedd Cymru yn flaenoriaeth o ran cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau clir i awdurdodau lleol i sicrhau bod integreiddio trafndiaeth yn rhan graidd o bob cynllun i adfywio ac ailddatblygu canol tref.

(Tudalen 24)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro perfformiad trylwyr ac yn comisiynu gwerthusiad annibynnol manwl o'r cynllun Canolfan Teithio Cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys asesu effaith pob cynllun ar fywiogrwydd y canol trefi dan sylw, gan gynnwys mynediad i bobl anabl.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 9. Credwn y gall fod angen i fusnesau mewn canol trefi weithredu oriau agor mwy hyblyg er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n newid. Rydym yn argymell felly fod Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei Nodyn Cyngor Technegol ar Gynllunio a Manwerthu i gynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ar osod amodau ar ddatblygiadau manwerthu mewn perthynas ag oriau gwaith mwy hyblyg.

(Tudalen 29)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol sydd wedi'u cynllunio ac sy'n annog perchenogion eiddo i roi eu heiddo gwag mewn canol trefi ar osod at ddibenion byw a gwaith a fyddai'n cyfrannu at fywiogrwydd canol trefi heb danseilio gwerth hirdymor yr eiddo.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Cadw yn parhau â'i hastudiaethau pennu nodweddion mewn trefi a phentrefi a'u bod yn rhan annatod o unrhyw gynllun adfywio. Rydym yn argymell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gwasanaeth

Adolygu Dyluniadau ac yn annog ei phartneriaid datblygu i wneud yr un peth. (Tudalen 32)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer manwerthu a chanol trefi er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn pennu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer pob un o'r canol trefi a'r strydoedd mawr yn eu Cynllun Datblygu Lleol, ac i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i sicrhau y caiff datblygiadau priodol eu lleoli mewn mannau addas y gellir eu cyrraedd yn hawdd drwy drafndiaeth gynaliadwy. (Tudalen 35)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell, o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol, fod gan bob tref gynllun cynhwysfawr ar waith, a ddatblygwyd gan bartneriaeth leol o randdeiliaid allweddol a thrwy ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar hyfywedd canol y dref. (Tudalen 36)

Argymhelliad 14. Credwn mai'r hyn sy'n allweddol i lwyddiant adfywio canol trefi yn lleol yw arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Rydym yn argymell felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i roi gwell cefnogaeth i'r bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol a pharch y gymuned leol i weithredu fel eiriolwyr i ddwyn ynghyd yr agweddau gwahanol ar waith adfywio canol trefi ynghyd â phawb sy'n chwarae rhan ynddo. (Tudalen 38)

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol a chymunedau i fod yn rhagweithiol wrth chwilio am ffynonellau buddsoddi ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi a chael gafael arnynt lle nad oes arian cyhoeddus ar gael. (Tudalen 39)

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod panel annibynnol Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes yn ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y broses o arfer pwerau disgrisiwn, gyda'r nod o wella'r amrywiaeth o fusnesau manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi a'u hansawdd. (Tudalen 43)

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu cynllun peilot, o fewn rheolau cystadlu'r UE ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a pherchenogion eiddo, sy'n helpu busnesau newydd i sefydlu mewn canol trefi. (Tudalen 43)

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth negodi'r cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2010, yn ceisio sicrhau bod y Rheoliadau newydd yn ddigon hyblyg i alluogi'r Cronfeydd i gael eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau adfywio canol trefi yn ystod y cylch nesaf.(Tudalen 44)

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad llawn a thryloyw o effeithiolrwydd Ardal Gwella Busnes Abertawe ac yn ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru ymhellach. (Tudalen 47)

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru drwy Croeso Cymru yn annog partneriaethau tref i farchnata eu nodweddion gwerthu unigryw megis treftadaeth bensaernïol ac ansawdd amgylcheddol, cynnyrch lleol a diwylliant lleol, gan gynnwys grwpiau o drefi o fewn ardal o bosibl fel y gall eu nodweddion gwahanol ategu ei gilydd. Gallai hyn fod yn rhan o gynllun canol y dref a argymhellwyd gennym uchod. (Tudalen 48)

Argymhelliad 21. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru lunio fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau adfywio canol trefi lle y gellir pennu amcanion a thargedau clir; casglu data, mesur canlyniadau ac effeithiau; a gwerthuso a chymharu perfformiad a llwyddiant. (Tudalen 50)

Cyflwyniad

1. Mae canol trefi bywiog a hanfodol wrth wraidd cymunedau cynaliadwy, ac maent yn allweddol i sicrhau economi iach a ffyniannus yng Nghymru.
2. Serch hynny, ledled Cymru, gwelir enghreifftiau o strydoedd mawr gwan a bregus, lle ceir eiddo gwag ac amgylcheddau siopa gwael.¹ Mae 11.5 y cant o safleoedd yng nghanol trefi Cymru yn wag, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 11.1 y cant, ond mae nifer y defnyddwyr yn groes i'r duedd yn y DU gyda chynnydd o 1.8 y cant ers y llynedd.²
3. Mae'r rhesymau dros y dirywiad yn ymwneud yn rhannol â'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r gostyngiad cysylltiedig mewn gwariant gan ddefnyddwyr, ond ceir hefyd faterion strwythurol hirdymor. Yn ystod yr ymchwiliad hwn i'r gwaith o adfywio canol trefi,³ clywodd y Pwyllgor Menter a Busnes fod:

“The problems facing our towns in Wales are universal. These are partly caused by changes in consumer behaviour, from internet shopping to challenges from out-of-town stores.”⁴

Yn wir, dadleuodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW)⁵ fod Cymru o bosibl yn *fwy* bregus na rhannau eraill o'r DU, oherwydd ei sail economaidd is.⁶

4. Er mwyn adfywio canol trefi, mae angen gweithredu mewn modd soffistigedig, integredig a chynaliadwy - drwy reoleiddio, darbwyllo a thrawsnewid⁷ - gan sicrhau arweinyddiaeth gadarn yn genedlaethol ac yn lleol, a bod yr holl ysgogiadau polisi, cynllunio ac ariannol yn syml ac wedi'u cydgyssylltu'n strategol i annog twf cynaliadwy ac amrywiol, yn ogystal â sicrhau ansawdd, gwerth a dewis i ddefnyddwyr.

¹Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru paragraff 1.2

²Ffigurau Consortiwm Manwerthu Prydain ar gyfer Tachwedd 2011. Dangosodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bro Morgannwg fod canran yr arwynebedd llawr gwag yng nghanol tref y Barri yn 26.7 y cant ar ei uchaf yn 2006

³Nodir cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn Atodiad A

⁴Cofnod y Trafodion paragraff 11, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁵Sefydlwyd CREW ym mis Hydref 2008 gan y Gweinidog dros Adfywio ar y pryd

⁶Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 3

⁷Cofnod y Trafodion paragraff 58, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

5. Clywsom y dylai fod arlwy estynedig ar gyfer canol trefi fel eu bod nid yn unig yn darparu cyfleoedd manwerthu ond hefyd gyfuniad o ddefnydd, gan gynnwys gofal iechyd, diwylliant, hamdden, dysgu, gweithio, byw a mannau cyhoeddus hyblyg.⁸ Mae incwm gwario'r boblogaeth leol hefyd yn ffactor allweddol wrth ddiffinio bywiogrwydd a hyfywedd canol tref.⁹

6. Yn hollbwysig, mae angen i'r Llywodraeth greu'r amodau cywir i annog a chyfeirio buddsoddiad mewn canol trefi, tra bod angen i bartneriaethau lleol gyflawni ar lawr gwlad. Felly, er mwyn adfywio canol trefi, mae angen i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol gydweithio'n agos, er bod y dull gorau o gyflawni'r partneriaethau hynny yn gallu amrywio o le i le.

7. Fodd bynnag, gellir dadlau mai'r her fwyaf yw sut i ddylanwadu ar galonnau a meddyliau pobl - eu ffyrdd o fyw, eu harferion siopa a'u dewisiadau teithio - er mwyn sicrhau y gall canol trefi barhau i ffynnu yn yr hirdymor.

8. Dymunwn ddiolch i'r sefydliadau a'r unigolion niferus a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Rydym yn croesawu'n arbennig gyfraniadau'n ymwneud â chanol trefi penodol, megis Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam, casgliadau o drefi yn siroedd Bro Morgannwg, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Sir y Fflint, a chanol trefi llai megis Aberdâr ac Arberth.

9. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Siambr Fasnach Arberth am hwyluso ymweliad ymchwiliol y Pwyllgor â'r dref¹⁰ i glywed barn a phryderon pobl fusnes leol, a chael gwybod mwy am y gwaith adfywio llwyddiannus a wnaed yng nghanol y dref dros y degawdau diwethaf. Gwnaeth brwdfrydedd ac ymrwymiad y gymuned honno greu argraff fawr arnom, ac er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae'r dref yn eu hwynebu o hyd, ein gobaith yw y gellir ail-greu eu profiadau da mewn rhannau eraill o Gymru.

10. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i ni'n ysgrifenedig ac ar lafar i dynnu sylw at nifer o heriau sy'n wynebu canol trefi yng Nghymru, ac rydym wedi gwneud 21 o argymhellion i fynd i'r afael â hwy. Mae 12 o'r argymhellion hynny (1,

⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 11, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 69, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁰ Ceir nodyn ar ymweliad y Pwyllgor yn Atodiad B

2, 4, 5, 6, 7, 9, 11, 12, 13, 16 a 17) yn galw am gamau cydunol gan y Llywodraeth, felly annogwn y Gweinidog i ymateb yn gadarnhaol i'n hawgrymiadau. Gwyddom na ellir adfywio canol trefi dros nos. Serch hynny, hyderwn y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar ein canfyddiadau ac y bydd ei pholisïau adfywio yn elwa arnynt.

Yr Heriau

Manwerthu ar gyrion y dref

11. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“There is no doubt that the development of out-of-town retail sites over the last few years has had a detrimental effect on many town centres across Wales.”¹¹

12. Cytunodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi¹² ond ychwanegodd nad oedd pob datblygiad ar gyrion trefi'n negyddol o reidrwydd. Mae'r papur gan Boots yn nodi y dylid sicrhau cyfle cyfartal i'r stryd fawr a'r fformatau manwerthu amgen ond nad yw hyn yn digwydd mewn sawl maes polisi ar hyn o bryd.¹³

13. Rheolaeth anuniongyrchol sydd gan Lywodraeth Cymru dros gynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi drwy bolisi cynllunio cenedlaethol¹⁴ sy'n nodi'r cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Noda Polisi Cynllunio Cymru y dylai awdurdodau cynllunio lleol gymhwyso prawf "dilyniannol" i gynigion manwerthu newydd er mwyn ystyried lleoliadau yng nghanol trefi cyn safleoedd ar eu cyrion. Mae'n rhaid gallu eu cyrraedd drwy amryw ddull trafndiaeth.

14. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd y pŵer i ymchwilio ymhellach i geisiadau cynllunio sy'n codi materion cynllunio o bwys y tu hwnt i'r ardal leol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol neu a allai gael effaith eang neu a all arwain at ddadlau sylweddol y tu hwnt i'r ardal leol. Ar hyn o bryd, rhaid i awdurdod cynllunio lleol gyfeirio cais i ddarparu ardal siopa gros o fwy na 20,000 metr sgwâr yn awtomatig at Weinidogion Cymru os yw'n bwriadu ei gymeradwyo. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y cynnig i ddileu'r gofyniad hwn.¹⁵

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 37

¹² Sefydliad aelodaeth dielw yw ATCM sy'n hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a dinasoedd

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig Boots paragraff 3

¹⁴ Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan Nodyn Cyngor Technegol 4, Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi

¹⁵ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Review of Directions Requiring Planning Applications to be Referred to the Welsh Ministers, Mawrth 2011

15. Er bod polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn ceisio diogelu canol trefi ar bapur, nid felly y caiff polisi ei ganfod neu ei wireddu mewn gwirionedd. Nododd Comisiwn Dylunio Cymru y gallai canllawiau a pholisi awdurdod cynllunio lleol gael eu halinio, eu mabwysiadu, eu gweithredu a'u dilyn yn well.¹⁶

16. Nododd tystiolaeth Llywodraeth Cymru ei hun fod cyrchfannau y tu allan i ganol trefi, sy'n cynnig parcio am ddim, ar eu hennill ar draul canol trefi,¹⁷ er nad yw'r Llywodraeth ei hun wedi cynnal unrhyw asesiad penodol o effaith datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi ar ganol trefi.¹⁸ Wrth sôn am ddatblygiadau manwerthu ar gyrion trefi, dywedodd Sustrans Cymru, yr elusen trafndiaeth gynaliadwy, wrthym:

“Let us not make it any worse. Let us apply Welsh planning guidance, which states that it should be the last resort, which, at the moment, is not really being observed in practice.”¹⁹

17. Dywedodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) wrthym fod gwendidau mewn cyfraith cynllunio - mai prin oedd yr opsiynau i awdurdodau lleol wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer siopau ar gyrion trefi; ac na allai cynghorau fforddio cystadlu ag archfarchnadoedd oherwydd costau cyfreithiol cosbol.²⁰ Clywsom hefyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a ddywedodd, lle nad yw safleoedd datblygu mewn canol trefi neu'n gyfagos iddynt yn addas, fod awdurdodau cynllunio lleol wedi ei chael hi'n anodd gwrthod cynigion ar gyrion trefi a gaiff eu cefnogi gan ymgynghorwyr yn y sector preifat â llawer o adnoddau sy'n arbenigo mewn apeliadau manwerthu. Clywsom wedyn gan Lywodraeth Cymru fod un o bob tair apêl yn erbyn penderfyniadau awdurdod cynllunio lleol yn debygol o fod yn llwyddiannus.²¹

18. Er mwyn helpu i droi'r drol ar y duedd hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn rhagweithiol ac wedi nodi safleoedd manwerthu canol tref yn ei gynlluniau datblygu ac wedi mynd ati i sefydlu'r safleoedd hynny, yn aml gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Drwy wneud hynny, mae siopau bwyd mawr

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru paragraff 2.1

¹⁸ Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, dyddiedig 17 Hydref 2011

¹⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 28, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

²⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 44, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

²¹ Cofnod y Trafodion paragraff 53, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

newydd wedi'u hadeiladu o fewn pellter cerdded i ganol trefi Caerffili, y Coed Duon, Ystrad Mynach a bellach Bargoed.²²

19. Clywsom farn wahanol iawn ar ddatblygiadau ar gyrion trefi gan Consortiwm Manwerthu Prydain, a nododd:

“Consumers must come first: some retailers have proposed placing additional burdens on out of town and other retailing (eg imposing out of town car parking charges/additional taxation/levies etc) to ‘level the playing field’ for in town retailing. We have been very clear that this is entirely the wrong approach – the key must be to ‘level up’, taking constructive steps to address the challenges facing the High Street not penalising successful retailers in other locations/channels.”²³

20. Ar 28 Tachwedd 2011, agorodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig i ddiweddarau polisi cynllunio cenedlaethol ar faterion economaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni dyheadau'r Llywodraeth i adfer yr economi yng Nghymru.²⁴

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol ar faterion economaidd, yn sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru yn diogelu canol trefi'n llwyr rhag effeithiau posibl datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi, ac y dylai'r Llywodraeth hefyd gymryd camau i wella'r broses o roi polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ar waith.

21. Fodd bynnag, fel y nododd swyddogion Llywodraeth Cymru, ni all polisi cynllunio unioni datblygiadau ar gyrion trefi sy'n rhagddyddio polisi cyfredol.²⁵ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer lloriau mesanîn a ychwanegir at unedau manwerthu ar gyrion trefi yng Nghymru, a bod hynny'n debygol o gael effaith negyddol ar ganolfannau cyfagos.²⁶ Cododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol bryderon mai rheolaeth gyfyngedig sydd gan bolisi cynllunio dros ambell ddefnydd penodol ar unrhyw safle, sy'n golygu pan gaiff uned fanwerthu ei dosbarthu'n A1 o dan y Gorchymyn Dosbarthiadau

²² Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili paragraff 4

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig BRC

²⁴ Llywodraeth Cymru, Diwygio Polisi Cynllunio Cymru Pennod 7 Cynnal yr Economi, Tachwedd 2011

²⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 45, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Defnydd, caniateir ei defnyddio mewn sawl ffordd heb fod angen caniatâd cynllunio pellach.²⁷

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud defnydd gwell o'u cytundebau â manwerthwyr ar gyrion trefi er mwyn diogelu bywiogrwydd canol trefi ymhellach.

22. Clywsom gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) fod trefi megis Pen-y-bont ar Ogwr wedi ceisio cystadlu â chanolfannau manwerthu ar gyrion y dref drwy ddarparu a marchnata cynnig gwahanol ("unigryw"), megis hyrwyddo treftadaeth canol y dref, cynnal digwyddiadau fel marchnadoedd, ffeiriau a gwyliau, a chreu cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus rhwng y dref a chanolfannau ar gyrion y dref.²⁸ Roedd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth o'r farn nad oedd yr atebion o reidrwydd yn ymwneud â manwerthu'n bennaf, ond â darparu manau cyhoeddus o ansawdd.²⁹ Fodd bynnag, nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

“Trying to create a Dickensian market town world heritage site-type experience for all towns across Wales will not help. Yes, they have a role and it is important, but they must be sustainable 52 weeks a year.”³⁰

Credwn y dylid lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth hyrwyddo canol trefi yn ehangach, ac rydym yn argymhell bod Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn datblygu ei rôl yn y maes hwn, gan gynnwys addysgu ac annog gweithwyr proffesiynol yn y sector.

23. Bydd adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn yn ymdrîn â pharcio yn fanylach, ond cafwyd cwynion gan sawl tyst i'r ymchwiliad hwn fod parcio am ddim mewn datblygiadau ar gyrion trefi'n cael effaith andwyol ar ganol trefi. Er enghraifft, nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod polisi cynllunio yn caniatáu ar gyfer meysydd parcio mawr am ddim mewn safleoedd ar gyrion trefi tra bod llai o leoedd

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig RTPi

²⁸ Cofnod y Trafodion paragraffau 34-35 a 143, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

²⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 36, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

³⁰ Cofnod y Trafodion paragraffau 108-110, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

parcio yn y dref, a'r lleoedd hynny'n mynd yn ddrutach.³¹ Awgrymodd Cyngor Bro Morgannwg y dylid gorfodi canolfannau siopa ar gyrion trefi i godi tâl am barcio er mwyn helpu i sicrhau cyfle cyfartal.³²

24. Wrth sôn am y cynnig i wrthbwysu meysydd parcio am ddim mewn canolfannau manwerthu ar gyrion trefi drwy gael gwared ar daliadau parcio mewn canol trefi, dywedodd Sustrans wrthym y byddai'n:

“Perpetuate the cycle of decline. It perpetuates the dominance of the car in the town centre and ignores the fact that a large number of people do not use a car to access the town centre. They would prefer to see a better shopping environment, with wider pavements, pedestrianisation and traffic-calming measures. This is a zero-sum game and money spent on providing free car parking is money not spent on improving the town-centre environment.”³³

25. Eglurodd Nodyn Cyngor a baratowyd gan ein Gwasanaethau Cyfreithiol nad yw'r broses o gyfrifo ardrethi busnes mewn perthynas â pharcio ceir mor eglur ag y mae rhai yn ei gredu. Mae mathau gwahanol o feysydd parcio y gellir codi ardrethi arnynt, ac mae'n rhaid i briswyr ystyried amryw ffactorau. Daethpwyd i'r casgliad y gall meysydd parcio ar gyrion trefi, gan gynnwys meysydd parcio preifat, fod yn destun ardrethi busnes ond y caiff pob maes parcio ei brisio'n unigol.

Archfarchnadoedd

26. Ymddengys mai cymysg yw'r farn mewn llenyddiaeth academiaidd ar effaith archfarchnadoedd ar siopau lleol: teimlir yn gyffredinol fod archfarchnadoedd ar gyrion trefi yn arwain at ddirywiad pellach mewn canol trefi lle maent yn cystadlu'n uniongyrchol â hwy, tra bod rhai arbenigwyr yn dadlau y gall archfarchnadoedd sydd wedi'u lleoli'n dda (megis ar ymyl y dref neu yn y dref) ddenu mwy o siopwyr i ganol trefi. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad ag Arberth, clywsom fod masnachwyr lleol yn pryderu'n fawr am effaith andwyol bosibl

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FSB

³² Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bro Morgannwg

³³ Cofnod y Trafodion paragraff 32, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

archfarchnad arfaethedig yn y dref ar rai busnesau sydd eisoes yn bodoli yng nghanol y dref.³⁴

27. Dywedodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) wrthym y dylid annog awdurdodau lleol i feddwl yn wahanol am archfarchnadoedd, ac na ddylid ystyried bod siopau "angor" o reidrwydd o fudd i'r economi leol.³⁵ Anghytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru â'r farn hon,³⁶ ond dadleuodd Comisiwn Dylunio Cymru:

“Much regeneration is led by retail and in many cases by an ‘anchor store’. Too often in Wales this is the sole focus and mixed use possibilities are not properly explored. This is partly a matter of finance, partly the culture of particular government departments, partly a lack of experience on such schemes (at local and national levels, both politically and amongst officers of local planning authorities), and an absence of systematic analysis of possibilities, cost, opportunity and viability.”³⁷

28. Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, diddorol oedd clywed bod rhai awdurdodau lleol wedi gosod amodau cynllunio ar archfarchnadoedd er mwyn diogelu masnachwyr lleol - megis atal archfarchnadoedd rhag darparu optegydd neu gigydd yn y siop.³⁸ Ond clywsom hefyd y canlynol:

“Work [is] needed at a significantly high level between the food store operators, Governments and local authorities to see whether the way they approach their purchasing could be changed. I do not underestimate the problems of that challenge, but I think that there could be a significant win there.”³⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu mwy o waith ymchwil ar effeithiau posibl archfarchnadoedd ar ansawdd canol trefi er mwyn llywio'r broses o ddadansoddi effaith datblygiadau arfaethedig o fewn y system rheolaeth gynllunio a'i

³⁴ Atodiad B

³⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 106, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

³⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 157, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

³⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 131, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

³⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 75, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

gwella, ac y dylai asesiadau o'r effaith ar fanwerthwyr lleol fod yn orfodol mewn perthynas â chynigion archfarchnadoedd.

29. Gwelwyd beirniadaeth debyg mewn perthynas ag ymagwedd awdurdodau lleol tuag at ddatblygiadau swyddfa ar gyrion trefi. Er bod enghreifftiau da ledled Cymru lle mae datblygiadau swyddfa wedi'u lleoli mewn canol trefi, nododd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi:

“We have seen office space moving out of town centres, and, in some cases, the local authorities are the culprits. They take 300, 400 or 500 jobs out of the town centre and move them to an out-of-town retail park, and then wonder why their town centres are going down the drain.”⁴⁰

Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog, o fewn eu Cynllun Datblygu Lleol, i ystyried datblygiadau swyddfa a gweithle fel modd i gynyddu nifer y bobl mewn canol trefi, ac y dylent asesu canlyniadau posibl cynigion ar gyfer datblygiadau swyddfa ar gyrion trefi, a dewisiadau amgen, yn fwy gofalus.

⁴⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 94, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

Atebion

Strategaeth adfywio

30. Galwodd rhai tystion, megis Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW), am bolisi 10 mlynedd cenedlaethol a rhaglen weithredu i adfywio canol trefi.⁴¹ Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn ganlynol:

“The need for the Welsh Government to outline an overall framework for economic renewal and regeneration is now greater than ever”.⁴²

31. Wrth holi'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar 22 Medi 2011, gwrthododd yr awgrym bod angen strategaeth gyffredinol ar gyfer adfywio. Fodd bynnag, nododd fod y Fframwaith ar gyfer Ardaloedd Adfywio, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru ym mis Hydref 2010, yn parhau'n bolisi cyfredol. Awgrymodd y Fframwaith hwnnw fod "angen ymagwedd fwy cydlynol a chyson er mwyn datblygu'r gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar adfywio ym mhob rhan o'r Llywodraeth."

32. Nododd CLILC fod Cynllun Gofodol Cymru wedi mynd ar gyfeiliorn.⁴³ Argymhellodd y Ffederasiwn Busnesau Bach y dylid diwygio Cynllun Gofodol Cymru,⁴⁴ felly hefyd CREW, a argymhellodd y dylid llunio fframwaith buddsoddi i ategu'r Cynllun, sy'n rhywbeth a wnaed yn llwyddiannus yn yr Iseldiroedd, yr Almaen a Denmarc.⁴⁵ Nododd CLILC hefyd fod angen i Gynllun Seilwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ddarparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio yn y dyfodol mewn modd mwy cyfannol ac i ddod â phartneriaid ynghyd.⁴⁶

33. “Dywedodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri wrthym:

“In order to be successful, a Townscape Heritage Initiative scheme needs to form part of a wider regeneration programme,

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 3

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 21

⁴³ CLILC, Cofnod y Trafodion paragraff 136, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig FSB

⁴⁵ Cofnod y Trafodion paragraffau 30, 100 a 112, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁴⁶ Cofnod y Trafodion paragraffau 136 a 180, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

working alongside other agencies and, most importantly, the community, with a clear vision and clear leadership. That is the most fundamental piece of information that comes out of our research. Therefore, we think that the Welsh Government - we are already working closely with it - has a pivotal role in ensuring that all of the agencies are lined up and delivering complementary strategies, with a clear vision and with clear leadership.”⁴⁷

34. Cytunwn â llawer o dystion fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r weledigaeth a'r fframwaith lle gall canol trefi lunio cynlluniau gweithredu.

35. Galwodd tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi ar i Lywodraeth Cymru gydgysylltu'r broses o lunio polisïau ar draws Adrannau a phortffolios Gweinidogol yn well er mwyn “ensure the lip service paid by the Government can be realised at the local level.” Nododd y papur gan Boots fod angen clir i Lywodraeth Cymru feddwl a gweithredu'n gyfannol gan na ellir ystyried cymorth polisi ar gyfer canol trefi ar wahân.⁴⁸ Honnodd Boots hefyd y canlynol:

“A limited understanding by the Welsh Government about how retail works in Wales and this is partly due to the current lack of any meaningful mechanism facilitating dialogue between government and the retail sector.”⁴⁹

Nododd Boots enghreifftiau lle roedd y llywodraethau yn Llundain a'r Alban yn gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo gwaith adfywio canol tref a dinas.

36. Roedd yn arwyddocaol hefyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nodi mai'r ddolen goll yn y rhan fwyaf o bartneriaethau adfywio lleol yn aml fu Llywodraeth Cymru, a hyd yn oed pan fo swyddog yn gallu mynychu, nid yw bob amser mewn sefyllfa i wneud unrhyw fath o ymrwymadau na phenderfyniadau ariannu.⁵⁰

37. Dywedodd Consortiwm Manwerthu Prydain wrthym ei fod o'r farn y byddai sefydlu un adran o'r Llywodraeth â chyfrifoldeb penodol

⁴⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 128, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Boots paragraff 2

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Boots paragraff 5

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 26

am faterion yn ymwneud â manwerthu ac adfywio canol trefi o fudd.⁵¹ Awgrymodd Boots y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm manwerthu a fyddai'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i wella trefniadau ymgysylltu rhwng y Llywodraeth a'r sector manwerthu ac i rannu arfer da.⁵²

38. Mae sawl adran o Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag adfywio canol trefi: Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Llywodraeth Leol a Chymunedau; Pobl, Lleuedd a Gwasanaethau Corfforaethol; Dyfodol Cynaliadwy; a Chynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad.

39. Er bod y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wedi cymryd yr awenau o ran cydgysylltu ymateb i'n hymchwiliad i adfywio canol trefi, hoffem weld canol trefi yn cael eu hyrwyddo o fewn y Cabinet yn fwy parhaus. Felly, roeddem yn falch o'i glywed yn dweud wrthym ei fod ar fin cyhoeddi system newydd o waith trawsadrannol, gan ganolbwyntio ar adfywio ardaloedd. Nododd y Gweinidog hefyd fod angen cydweithio â llywodraeth leol,⁵³ er na roddodd unrhyw fanylion am y partneriaethau newydd hynny na sut y byddent yn gweithredu.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu arweinyddiaeth Weinidogol benodedig ar gyfer canol trefi, gan gynnwys sefydlu fforwm polisi canol trefi wedi'i gadeirio gan y Gweinidog arweiniol, a fyddai'n dwyn ynghyd swyddogion o Adrannau gwahanol a chynrychiolwyr allweddol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i rannu arfer da a nodi cynllun gweithredu a fframwaith monitro ar gyfer adfywio canol trefi Cymru.

Trafnidiaeth gynaliadwy ac integredig

40. Nododd y papur a gyflwynwyd gan Sustrans fod:

“Pedestrian and cycle-friendly environments have been shown as the core around which economic growth, public health, sustainability and overall quality of life are built. It is therefore

⁵¹ Cofnod y Trafodion paragraff 115, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁵² Cofnod y Trafodion paragraff 244, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁵³ Cofnod y Trafodion paragraffau 8 a 15, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

crucial that these environments are considered in any long-term development and regeneration plans.”⁵⁴

41. Pan ymddangosodd Sustrans gerbron y Pwyllgor, cawsom wybod y canlynol:

“The quality of town centres has far-reaching consequences and implications, not least for health. In 2008, the National Institute for Health and Clinical Excellence produced a study on the built environment and physical activity.[...]. It found that, in order to promote physical activity and tackle obesity, the quality of the built environment and town centres was crucial. Critically, NICE said that the walkability and cyclability of a town centre was very important. It said that the highest priority elements of the physical environment should be the active modes, namely walking and cycling, and that car use should be actively discouraged. It said that road space should be reallocated, and that road space should be set aside for wider pavements, bus lanes and cycle lanes. It said that vehicle access should be restricted, and it recommended road-user charging, traffic-calming measures and safe routes to schools, hospitals and stations.”⁵⁵

42. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol y canlynol:

“Important to provide a range of transport options to support town centres, with a priority in reducing car journeys. Safe and easy access by walking and cycling must also be a priority to promote, as well as the provision of public transport.”⁵⁶

43. Dadleuodd Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta) hefyd y canlynol:

“The improvement of access by rail, bus, cycling and walking must be made an integral part of any town centre regeneration plan. Not doing so is likely to undermine the regeneration objectives in the long term.”⁵⁷

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Sustrans

⁵⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 5, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig RTPi

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Sewta paragraff 5

44. Nododd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, er ei bod yn arfer da i gynlluniau trafndiaeth cynaliadwy ac integredig gael eu cynnwys mewn strategaethau adfywio trefi, na lwyddwyd i wneud hyn bob amser, ac mae hyd yn oed wedi tanseilio agweddau eraill ar adfywio.⁵⁸ Nododd Sustrans Cymru ymhellach:

“In strategic terms the impact of town centre regeneration projects on sustainable transport is rarely considered at an early stage. Where regeneration schemes have been able to make a contribution has often relied on Sustrans being able to influence the plans, but inevitably we cannot be everywhere and there is a limit to the impact a relatively small charity can have.”⁵⁹

45. Argymhellodd Sewta y canlynol:

“The National Transport Plan should identify city and town centres as a priority for improving interchange, and good quality interchange facilities should be required as a component of regeneration/redevelopment schemes and not as an afterthought.”

Dadleuodd Sewta y dylai fod cyfnewidfeydd mewn canol trefi i integreiddio gwasanaethau rheilffordd a bws, yn ogystal â chysylltiadau athraidd ar gyfer cerdded a seiclo.⁶⁰

46. Pan ofynnwyd i dystion a oedd polisi trafndiaeth a fframwaith cynllunio Cymru, ynghyd â'r canllawiau ar waith dylunio ac adeiladu'r cynllun trafndiaeth, yn darparu sail effeithiol ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy ac integredig mewn canol trefi, dywedodd Sewta wrthym:

“Each local authority is looking within its own borders, and developing its local development plan, but there is a bit of a mismatch or a gap in how various local authorities link together.”⁶¹

47. Mynegodd Sewta bryderon hefyd fod Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol yn cael eu llunio heb weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 4.6

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Sustrans

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Sewta paragraffau 6 a 105

⁶¹ Cofnod y Trafodion paragraff 100, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

ardal gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd Sustrans at ddiffyg canllawiau mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar sut y gellid cyflawni neu ariannu targedau cenedlaethol ar gyfer cerdded a seiclo a hyd yn oed p'un a ellid gwneud hynny.⁶²

48. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am y diffyg integreiddio o ran cynllunio trafndiaeth ac adfywio canol trefi, ymatebodd drwy ddweud na ellir adfywio'n briodol heb ystyried yr holl benawdau hynny o'r cychwyn, ac iddo fod yn cenhadu'r safbwynt hwn ledled Cymru.⁶³ Credwn fod angen arweinyddiaeth fwy cadarn gan y Llywodraeth.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu trafndiaeth integredig a chynaliadwy yng nghanol trefi a dinasoedd Cymru yn flaenoriaeth o ran cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau clir i awdurdodau lleol i sicrhau bod integreiddio trafndiaeth yn rhan graidd o bob cynllun i adfywio ac ailddatblygu canol tref.

Mynediad i geir a bywiogrwydd canol trefi

49. Mae mynediad i geir a pharcio mewn canol trefi yn fater cynhyrfiol a dadleuol iawn. Ar un llaw, nid oes gan nifer sylweddol o'r boblogaeth gar. Dyfynnodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Age Cymru ystadegau gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi bod hanner y cartrefi heb gar yn cynnwys unigolion dros 60 oed ac nad oedd gan 66 y cant o bensiynwyr sengl gar.⁶⁴ Nododd tystiolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad oedd gan 30 y cant o'i gartrefi fynediad i gar ychwaith.⁶⁵

50. Ar y llaw arall, pwysleisiodd nifer fawr o dystion ac ymatebion i'r ymgynghoriad fod mynediad i geir ac argaeledd a chost parcio yn bwysig i lwyddiant canol tref. Dyma, yn sicr, oedd y farn gyffredin ymhlith masnachwyr canol tref y siaradwyd â hwy yn Arberth: roeddent yn pryderu'n fawr fod y cyfyngiadau parcio ar hyd y stryd fawr a'r

⁶² Cofnod y Trafodion paragraffau 101-102, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁶³ Cofnod y Trafodion paragraff 100, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Age Cymru

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

taliadau newydd yn y maes parcio penodedig yn cael effaith andwyol ar eu cwsmeriaid.⁶⁶

51. Rhestrodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ardal Gwella Busnes Abertawe nifer o gyflawniadau o ran meysydd parcio a thrafnidiaeth er bod pob un ohonynt yn ymwneud â sicrhau meysydd parcio am ddim neu â phrisiau gostyngol.

52. I'r gwrthwyneb, dadleuodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Sustrans nad oedd canfyddiadau cyffredin o bwysigrwydd mynediad i geir mewn canol trefi yn gwbl gadarn, a bod ymchwil o Fryste yn dangos bod manwerthwyr yn dueddol o oramcan pwysigrwydd masnach defnyddwyr ceir o ran nifer y cwsmeriaid bron i 100 y cant. Yn yr un astudiaeth, canfuwyd bod beicwyr a defnyddwyr ceir bedair gwaith yn fwy tebygol o ymweld ag un siop yn unig o gymharu â cherddwyr; ac roedd pedwar o bob pum ymweliad siopa gan gerddwr yn cynnwys mynd i rhwng dau a phum siop, o gymharu â thair rhan o bump o'r rhai a oedd yn teithio mewn car neu ar feic.⁶⁷

53. Dywedodd Sustrans wrthym yn ddiweddarach:

“Retailers - and, in turn, local councillors and officials responding to them - feel that the best way to deliver a short-term injection into a town centre is to increase accessibility by car. Paradoxically, they have created a situation, which now goes against Welsh transport planning guidance, in which out-of-town shopping centres with free car parking were encouraged. To compete with that, they feel that they need to level down, if you like, and match that free parking provision. It is a spiral of decline.”⁶⁸

54. Dadleuodd Sustrans ymhellach fod dileu taliadau parcio gan awdurdodau lleol mewn canol trefi dros dro, er enghraifft er mwyn annog mwy o bobl i siopa yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, wedi arwain at:

“A significant cost to them in lost income. At the same time, because people are travelling more by car, they are travelling less by bus, which means that bus services become less viable and require greater subsidy from local authorities, or contracts

⁶⁶ Atodiad B

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Sustrans

⁶⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 13, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

are simply not being let. So, a number of examples were reported earlier this week of councils subsidising car parking spaces and, at the same time, withdrawing bus services.”⁶⁹

Fel ateb, awgrymodd Sustrans y dylid rheoli trafndiaeth mewn canol trefi ar sail hierarchaethau gwahanol o athreiddedd fel bod pobl yn ei chael hi'n haws cerdded, seiclo neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ond yn wynebu mwy o gyfyngiadau pe baent yn defnyddio car.

55. Awgrymodd CLILC fod arferion siopa sy'n newid wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar geir ymhlith siopwyr ac wedi gwneud trafndiaeth gynaliadwy yn llai deniadol:

“Changes in shopping behaviour have resulted in major shopping trips to stock up with a ‘boot full’ of goods for a period of days. This has reduced the attraction of public transport, cycling or walking which are more suited to frequent visits and smaller quantities, which an individual can sensibly carry by hand.”⁷⁰

56. Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol:

“Whilst there should be an overall approach to reduce the amount of car journeys to town centres to reduce congestion and make the centres more attractive, inevitably many will still want, and in some cases need, to travel by car. There therefore needs to be a holistic approach to car parking policy within and adjacent to centres, including policies on tariff setting.”⁷¹

57. Argymhellodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi y dylai fod strategaeth barcio ar waith ym mhob tref er mwyn ystyried materion yn drylwyr.⁷² Awgrymodd Sewta ei bod yn hanfodol rheoli parcio mewn canol trefi ynghyd â gwella trafndiaeth gyhoeddus.

58. Deallwn fod parcio mewn canol trefi yn fater cymhleth a dadleuol iawn, ond tystiolaeth anecdotaidd a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn yn bennaf. Mae angen gwasgu'r danadl drwy gynllunio ar gyfer y tymor llawer hwy er mwyn i ganol trefi allu gwrthsefyll prisiau tanwydd cynyddol a phrinder ynni. Cydnabyddwn felly fod angen deall yn llawn

⁶⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 32, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 48

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig RTPi

⁷² Cofnod y Trafodion paragraff 24, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

effaith trafndiaeth gynaliadwy ar fywiogrwydd canol trefi yng Nghymru ac i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol. Adlewyrchir y casgliad hwn yn ein hargymhelliad mewn perthynas â Chanolfannau Teithio Cynaliadwy (isod), sy'n cynnwys cyfeiriad at effaith bywiogrwydd canol trefi fel rhan o werthusiad trylwyr.

Canolfannau Teithio Cynaliadwy

59. Mae Canolfannau Teithio Cynaliadwy yn defnyddio amrywiaeth o fesurau ac ymyriadau ategol i leihau tagfeydd a llygredd ac annog ffyrdd o fyw mwy egnïol drwy newidiadau moddol i drafnidiaeth gynaliadwy. Treialwyd y rhaglen yng Nghaerdydd, ac ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddwyd cyllid gwerth £6 miliwn i ariannu'r gwaith o ymestyn y cynllun i Aberystwyth, Caerfyrddin, Hwlfordd a Môn a Menai, gan gynnwys £1.3 miliwn ar gyfer cynllun peilot cynlluniau teithio personol, sy'n cael ei weithredu gan Sustrans.⁷³

60. Clywsom gan Sustrans nad oedd y cynllun Canolfan Teithio Cynaliadwy a roddwyd ar waith yng Nghymru yn ystyried gwelliannau a wnaed i'r cynllun yn Lloegr yn dilyn argymhellion yn yr adroddiad gwerthuso.⁷⁴

61. Deallwn fod twf blynyddol cyfartalog o 16% wedi bod yn nifer y bobl sy'n seiclo ledled Canol Dinas Caerdydd ers lansio'r Ganolfan Teithio Cynaliadwy. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wrthym fod nifer y bobl sy'n cymudo mewn ceir wedi lleihau o 65 y cant ar ei uchaf cyn y fenter i 58 y cant yn 2010.⁷⁵

62. Rydym yn croesawu'r ffigurau hyn, ond credwn nad yw monitro patrymau teithio yr un peth â chynnal gwerthusiad trylwyr o'r cynllun, ac rydym yn ansicr o hyd beth yw targedau'r cynllun mewn gwirionedd. Roedd Sustrans hefyd o'r farn y dylai prosiectau Canolfan Teithio Cynaliadwy gynllunio ar gyfer y tymor hwy - o leiaf bedair blynedd - yn hytrach na disgwyl cyflawni canlyniadau o fewn ychydig flynyddoedd.⁷⁶

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith monitro perfformiad trylwyr ac yn comisiynu gwerthusiad annibynnol manwl o'r cynllun Canolfan Teithio Cynaliadwy. Dylai

⁷³ Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, Hwb i Drafnidiaeth Werdd, 18 Gorffennaf 2011

⁷⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 90, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 97, 20 Hydref 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Sustrans

hyn gynnwys asesu effaith pob cynllun ar fywiogrwydd y canol trefi dan sylw, gan gynnwys mynediad i bobl anabl.

Cysylltu economi'r dydd ac economi'r nos

63. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe:

“Whilst the night-time economy is an important part of the City Centre function, it has to be recognised that a poor night-time reputation can deter efficient day time functioning. A narrowly focused night-time offer, concentrated on a drinking culture, can lead to the centre proving unattractive.”⁷⁷

64. Dadleuodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi (ATCM) yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“We cannot underestimate both the potential and potency of the night-time economy which can be a severe drain for Wales or, with the right intervention and management, can be a significant wealth generator.”

Roedd ATCM o'r farn y dylai'r ymyriadau a'r dulliau rheoli cywir gynnwys partneriaethau a strategaethau i sicrhau na ddylai economi'r nos ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y farchnad 18-24 oed, ond ar gyfuniad gwell o atyniadau ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddwyr. Dywedwyd wrthym:

“If town centres are to survive and thrive, 9 a.m. to 5 p.m. is no longer enough. The assets have to be sweated.[...]therefore we have to find new ways of using our town centres. Using them in the evening and at night is very important. We have a programme called purple flag.[...]for the evening and night-time economy and we will be awarding another nine purple flags this autumn. To get a purple flag, you have to be very careful about how your town centre is managed at night.”⁷⁸

65. Yn ogystal â menter y Faner Borffor, dywedodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi wrthym am "light night", sef cynllun i arddangos canol trefi ac annog pobl nad ydynt o bosibl yn mentro allan i ganol y

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Dinas a Sir Abertawe paragraff 4.5

⁷⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 59, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

dref gyda'r nos i wneud hynny a gweld beth sydd ar gael.⁷⁹ Awgrymodd ATCM hefyd y dylid annog manwerthwyr i siarad â'u cwsmeriaid am eu hanghenion a theilwra eu gwasanaethau'n unol â hynny, megis sefydlu mannau casglu mewn canol trefi a fyddai ar agor ar ôl oriau gwaith arferol ar gyfer nwyddau a archebwyd ar-lein, neu weithredu oriau agor 11am - 7pm yn lle'r 9 tan 5 traddodiadol, er mwyn cysylltu economi'r dydd ac economi'r nos.⁸⁰

66. Ni ddiweddarwyd Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru ar Gynllunio a Manwerthu mewn Canol Trefni ers 1996.⁸¹

Credwn y gall fod angen i fusnesau mewn canol trefi weithredu oriau agor mwy hyblyg er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n newid. Rydym yn argymhell felly fod Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei Nodyn Cyngor Technegol ar Gynllunio a Manwerthu i gynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ar osod amodau ar ddatblygiadau manwerthu mewn perthynas ag oriau gwaith mwy hyblyg.

67. Gallai dychwelyd llety gwag uwchben siopau i ddefnydd preswyl fod yn ffactor arall o ran cysylltu economi'r dydd ac economi'r nos. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru y gallai cynyddu'r ddarpariaeth dai ddod â bywyd i ardaloedd yn barhaol, megis darparu llety byw uwchben safleoedd masnachol neu ddod o hyd i dai i'r henoed yn agos i ganol tref neu ardal.⁸²

68. Fodd bynnag, dywedodd Comisiwn Dylunio Cymru wrthym:

“Mixed use is difficult to achieve in individual buildings in historic town centres. Often, retail investors and developers do not like the idea of having residential properties above them, because residents attract rights; they can stifle future development and the selling on of a building. As a result, our town centres often end up with shops on the ground floor and empty floors above.”⁸³

⁷⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 64, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁸⁰ Cofnod y Trafodion paragraffau 70-71, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁸¹ Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996)

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig RSCW paragraff 4.2

⁸³ Cofnod y Trafodion paragraff 139, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

Roedd y Comisiwn o'r farn y gellid datrys hyn drwy:

“A master plan - if I can use that term, although I do not particularly like it - together, with a shared vision for the town centre; that is what the planning system needs to do. It is about inspiration on behalf of the Welsh Government, and that inspiration comes through exemplars. Where are the best places? How can you inspire people in those neighbourhoods to bring those good design qualities forward?”⁸⁴

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol sydd wedi'u cynllunio ac sy'n annog perchenogion eiddo i roi eu heiddo gwag mewn canol trefi ar osod at ddibenion byw a gwaith a fyddai'n cyfrannu at fywiogrwydd canol trefi heb danseilio gwerth hirdymor yr eiddo.

Pwysigrwydd dyluniad da

69. Dywedodd Comisiwn Dylunio Cymru wrthym fod dyluniad da yn golygu:

“A process of problem-solving, analysis and testing, and it is a route to innovation. Our experience and evidence also shows that good design is a huge advantage to good business.”⁸⁵

70. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Comisiwn Dylunio Cymru at astudiaethau sydd wedi dangos bod pensaerniaeth a dyluniad trefol da wedi cael effaith wirioneddol ar yr economi, ac y gall dyluniad da ychwanegu hyd at 20 y cant at werth rhent neu gyfalaf yn ogystal â chyflymu'r broses osod neu werthu.

71. Serch hynny, mynegodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri bryderon y gallai canol trefi golli eu hunaniaeth:

“Of significant concern is the erosion of the unique character of towns, both through the loss of independent retailers, the loss of a mixed economy, the loss of historic detail (such as shop

⁸⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 139, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁸⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 112, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

fronts, canopies, traditional paving etc), and the decline of traditional building skills.”⁸⁶

Roedd y Gronfa am weld ffocws ar aildefnyddio adeiladau hanesyddol yn hytrach na chreu datblygiadau newydd, megis aildefnyddio lloriau uchaf gwag fel llety byw a throsglwyddo adeiladau gwag awdurdodau lleol i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

72. Rhoddodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru wybodaeth am yr astudiaethau pennu nodweddion a gynhaliwyd gan Cadw, sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol y Llywodraeth. Mae'r astudiaethau hyn yn nodi natur unigryw lle penodol a'r hyn sy'n ei wneud yn arbennig.⁸⁷ Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrthym yn ddiweddarach ei fod yn cefnogi'r astudiaethau hyn yn fawr a'i fod yn gofyn i Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru arwain y bartneriaeth â Cadw a Chomisiwn Dylunio Cymru wrth greu atebion pwrpasol i gymunedau.⁸⁸ Rydym yn croesawu dull gweithredu'r Gweinidog ac yn cefnogi ei gynlluniau i ymestyn astudiaethau pennu nodweddion Cadw yn ehangach ledled Cymru.

73. Soniodd sawl tyst fod edrychiad, naws neu ymarferoldeb canol trefi yn ffactorau pwysig o ran denu pobl neu eu cadw draw - o ansawdd strydluniau a chelf gyhoeddus, i fynediad i bobl hŷn⁸⁹ a phobl anabl,⁹⁰ i faterion megis diogelwch personol, diogelwch eiddo, glendid a darpariaeth toiledau cyhoeddus a chyfleusterau newid babanod.⁹¹ Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd manau agored y gellir eu defnyddio i gynnal gwyliau, ffeiriau ac atyniadau canol tref eraill.

74. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, ychwanegodd Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig droednodyn digymell am harddwch a nododd mai'r methiant i greu lleoedd y mae pobl yn dwli arnynt o bosibl fu methiant mwyaf amlwg y llywodraeth a'r diwydiant eiddo ac adeiladu ers canrif.⁹²

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cymru paragraff 5.1.1

⁸⁷ Llythyr gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth at y Cadeirydd, dyddiedig 7 Tachwedd 2011

⁸⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 121, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Age Cymru

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Diverse Cymru paragraff 8; tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion paragraff 5

⁹¹ Cofnod y Trafodion paragraff 81, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig

75. Wrth sôn am ddyluniad manau cyhoeddus mewn canol trefi, nododd Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig y canlynol:

“The design of public spaces including street furniture, signage and lighting etc [should] be part of a harmonious whole. What we have in abundance may be described as clutter. Town centres are not regenerated by planting faux-Victorian signposts, litter bins and benches among traffic lights and their attendant control boxes, traffic signs and galvanised metal pedestrian barriers.”⁹³

76. Clywsom fod Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, gan weithredu fel ymgynghorai anstatudol ar gynigion datblygu. Gall awdurdodau cynllunio lleol, rhanddeiliaid eraill a Llywodraeth Cymru drin ei sylwadau fel ystyriaethau perthnasol yn y broses gynllunio, ac fe'i cydnabyddir fel corff ag awdurdod gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru a Lloegr. Yn 2010, craffodd y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau ar werth £1.8 biliwn o ddatblygiadau yng Nghymru. Mae'r Comisiwn ar adegau wedi cael ceisiadau am gynlluniau a arweinir gan fanwerthwyr sy'n amhriodol ac o ansawdd annerbyniol o wael. Mae'r rhain yn niweidiol yn yr hirdymor ac maent yn paratoi'r ffordd am broblemau yn y dyfodol.⁹⁴

Dywedodd y Comisiwn wrthym yn ddiweddarach mai cyfran fach o gynigion datblygu y mae'n craffu arnynt:

“A very small proportion. The issue for us is to be able to influence on a larger scale, and to do that we need stronger referral, I suppose, from Welsh Government departments. They could use us better, and we are very happy to be used.”⁹⁵

Rydym yn argymhell bod Cadw yn parhau â'i hastudiaethau pennu nodweddion mewn trefi a phentrefi a'u bod yn rhan annatod o unrhyw gynllun adfywio. Rydym yn argymhell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau ac yn annog ei phartneriaid datblygu i wneud yr un peth.

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig paragraff 6

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

⁹⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 205, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

Rôl awdurdodau lleol

77. Nid yw rheoli canol trefi yn swyddogaeth statudol, er bod ein hadroddiad eisoes wedi datgelu'r rôl allweddol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran hyrwyddo gwaith adfywio canol trefi, megis drwy'r system gynllunio statudol.

78. Roedd Consortiwm Manwerthu Prydain o'r farn na ddylai rheoli canol trefi fod yn swyddogaeth statudol;⁹⁶ dadleuodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi hefyd y canlynol:

“If [town centre management] becomes a statutory role through local government, it becomes a local government post in the public sector, so it becomes more difficult to engage with the private sector.”⁹⁷

79. Roedd angen i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth hefyd gael ei ddarbwylllo am y ddadl dros wneud rheoli canol trefi yn swyddogaeth statudol, er ei fod o bosibl yn ei ystyried yn amod cyllid.⁹⁸

80. Dadleuodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi y dylai trefi yng Nghymru roi cynlluniau twf strategol ar waith. Dywedwyd wrth aelodau:

“The issue is whether you can get a satisfactory interaction between the planning departments and the property departments and try to get this rather more holistic view, which sees the town in the broadest sense and says that, although we may not make so much money out of our property assets, if we look at the wider economic development benefits, we can do that.[...]there is a possibility of local authorities taking five-year leases of premiums and making accommodation available at discounted rents to local traders as a way of really trying to encourage local people to trade, particularly in the early years, when it is quite difficult to build a new business.”⁹⁹

81. Dywedodd CLILC wrthym mai un o'r rolau allweddol i awdurdodau lleol oedd creu amgylchedd deniadol i annog

⁹⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 148, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁹⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 46, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁹⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 17, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

⁹⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 77, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

buddsoddiad busnes drwy ddatblygu cynlluniau canol tref lleol yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol.¹⁰⁰ Roedd y Cynllun Datblygu Lleol yn allweddol i ystyried canol trefi mewn modd strategol ar draws sir gyfan - gan nodi rolau gwahanol canolfannau gwahanol, ynghyd â chydabod unrhyw hierarchaeth rhyngddynt.¹⁰¹ Aeth CLILC cyn belled â dweud bod tystiolaeth i awgrymu bod cyswllt posibl rhwng bodolaeth Cynllun Datblygu Lleol cyfredol a thwf economaidd. Roedd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth hefyd o'r farn bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gwbl allweddol ac y byddai cymunedau'n dioddef heb gynllun o'r fath.¹⁰²

82. Cyflwynodd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ofyniad statudol i bob awdurdod cynllunio lleol lunio Cynllun Datblygu Lleol. Unwaith y cânt eu mabwysiadu, mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn disodli pob cynllun datblygu sydd eisoes ar waith ac fe'u defnyddir fel y sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai dim ond pump o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol hyd yma, ac nad oes gan Geredigion unrhyw fath o gynllun datblygu o gwbl.¹⁰³

83. Dywedodd Comisiwn Dylunio Cymru wrthym:

“We face some difficult issues with land ownership in town centres. Investment houses and developers often hold large tracts of town centres. Often, on a short-term basis, they are looking for quick returns for their investors. Those two things do not marry up well with a long-term future strategy and vision for our town centres. The crucial part of planning is pulling together local champions and the town centre in a vision for that area.”¹⁰⁴

84. Yn ôl gwefan Llywodraeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Lleol wedi mynd y tu hwnt i'w cyfnod ymgynghori ac wedi cyrraedd y cam 'adnewo'; y cam nesaf fydd eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Cynllunio. Ni fyddem yn dymuno oedi'r broses ymhellach,

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 28

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion paragraff 156, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁰² Cofnod y Trafodion paragraffau 40 a 19, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁰³ Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, dyddiedig 17 Hydref 2011

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 138, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

ond credwn fod Cynlluniau Datblygu Lleol yn allweddol i hyrwyddo'r gwaith adfywio canol trefi mewn modd strategol a chydgysylltiedig.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer manwerthu a chanol trefi er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn pennu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer pob un o'r canol trefi a'r strydoedd mawr yn eu Cynllun Datblygu Lleol, ac i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i sicrhau y caiff datblygiadau priodol eu lleoli mewn mannau addas y gellir eu cyrraedd yn hawdd drwy drafndiaeth gynaliadwy.

Partneriaethau lleol ac ymgysylltu

85. Un o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn oedd bod gwaith rheoli canol trefi effeithiol yn galw am bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat - cynrychiolwyr masnachwyr lleol, preswylwyr lleol, y cyngor lleol, yr heddlu a rhanddeiliaid eraill â diddordeb - a bod angen i bawb gyfrannu at gynllun gweithredu canol tref.¹⁰⁵ Serch hynny, awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) fod y graddau y mae busnesau a chymunedau lleol wedi'u cynnwys mewn gwaith adfywio canol tref wedi amrywio'n fawr yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf.¹⁰⁶

86. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan y cwmni ymgynghori ar adfywio trefol, The Means, y canlynol:

“There is no consistency in policy across Wales and no research. In some places there is a functioning infrastructure built on Civic Societies, or Development Trusts, or Chambers of Commerce or Town Centre Partnerships but this is no guarantee of effective communication or liaison between the sectors. Their presence and performance varies from place to place.”¹⁰⁷

¹⁰⁵ Gweler CLILC, Cofnod y Trafodion paragraff 160, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 4.2

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig The Means

87. Dadleuodd CLILC fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i hwyluso'r gwaith o adfywio canol trefi fel brocer teg i ddod ag amrywiaeth o bartneriaid ynghyd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a datblygu cynllun gweithredu clir i fynd i'r afael â materion megis trafndiaeth gynaliadwy ac economi'r nos. Roedd gan awdurdodau lleol hefyd amryw rolau o ran iechyd yr amgylchedd, glanhau strydoedd, trafndiaeth a chysylltiadau â diogelwch cymunedol.¹⁰⁸ Roedd CLILC hefyd am weld cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fel modd i gyfathrebu'n well rhwng partneriaid, masnachwyr lleol yn benodol.¹⁰⁹

88. Ar y llaw arall, nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod rhai o'i aelodau o'r farn nad oedd awdurdodau lleol yn gwneud digon i ddiwallu anghenion busnesau.¹¹⁰ Nododd Consortiwm Manwerthu Prydain fod yn rhaid i ganol trefi gael eu rheoli'n rhagweithiol a'u harwain gan y sector preifat, a bod partneriaethau yng Nghymru'n dueddol o gael eu dominyddu gan y sector cyhoeddus a'u bod yn methu â sicrhau'r arian na'r buddsoddiad busnes sydd ei angen i gyflawni canlyniadau pendant. Argymhellodd y Consortiwm felly y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio ar annog partneriaethau effeithiol â'r sector preifat, naill ai'n annibynnol neu drwy Ardaloedd Gwella Busnes.¹¹¹

Rydym yn argymhell, o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol, fod gan bob tref gynllun cynhwysfawr ar waith, a ddatblygwyd gan bartneriaeth leol o randdeiliaid allweddol a thrwy ymgysylltu â'r gymuned, sy'n cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar hyfywedd canol y dref.

89. Dywedodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi wrthym mai rheolwyr canol trefi oedd y cyswllt hanfodol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat gan nodi'r canlynol:

“Initiatives should be developed locally, depending on local needs - local solutions for local problems. That is not a cop-out.

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 168, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 234, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig FSB

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig BRC

Typically, town centre management is a mechanism for co-ordinating action across the town.”¹¹²

90. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er y gallai'r gymuned fusnes leol gefnogi rheolwyr canol trefi yn yr ardaloedd mwy llewyrchus yn Lloegr, mai prin y gellid gwneud hynny yng Nghymru:

“Rarely the case in Wales...and almost all Welsh town centre managers (usually responsible for several towns each) are funded by local authorities. Often, due to financial pressures, this vital service is not provided at all.”¹¹³

91. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym fod angen i ni oresgyn y rhwystr diwylliannol rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.¹¹⁴ Dywedodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi wrthym, fel rhan o strategaeth canol tref, y dylai fod:

“A programme for someone to go out to engage directly with small businesses and understand their needs and their future needs.”¹¹⁵

92. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam at Fforwm Canol y Dref sy'n cyfarfod yn fisol ac a gaiff ei arwain gan Reolwr Canol y Dref a'i gadeirio gan aelodau o'r gymuned fusnes, ac at gylchlythyr Canol y Dref.¹¹⁶

93. Nododd Cyngor Dylunio Cymru fod y gwaith o adfywio canol trefi wedi bod yn llwyddiannus mewn manau megis Aberdâr ac Arberth oherwydd dycnwch unigolion â gweledigaeth ac egni. Priodolwyd bywiogrwydd canolfannau megis Rhuthun ac Aberteifi hefyd i eiriolwr unigol/cymunedol yn hytrach na menter.¹¹⁷ Roedd yn amlwg o'n hymweliad ag Arberth pa mor bwysig ydyw i gael unigolion cryf ac effeithiol a all ddod â chymuned leol ynghyd i weithio tuag at nod a rennir.¹¹⁸

¹¹² Cofnod y Trafodion paragraffau 5-6, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig CBS Caerffili paragraff 7

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 66, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 44, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

¹¹⁸ Atodiad B

94. Pwysleisiodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru bwysigrwydd arweinyddiaeth glir ac effeithiol - yn nhermau cymorth gwleidyddol a rheolaeth o ddydd i ddydd - mewn cynlluniau adfywio.¹¹⁹ Pwysleisiodd Sefydliad y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig bwysigrwydd ewyllys gyfunol a chydlyniant cymunedau bach i wireddu gweledigaeth yn llwyddiannus, boed hynny ar ffurf grŵp bach neu gymuned ehangach.¹²⁰

Credwn mai'r hyn sy'n allweddol i lwyddiant adfywio canol trefi yn lleol yw arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Rydym yn argymhell felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i roi gwell cefnogaeth i'r bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol a pharch y gymuned leol i weithredu fel eiriolwyr i ddwyn ynghyd yr agweddau gwahanol ar waith adfywio canol trefi ynghyd â phawb sy'n chwarae rhan ynddo.

Modelau ariannu arloesol

95. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y model ariannu confensiynol ar gyfer y gwaith o ailddatblygu canol dinasoedd a chanol trefi ar raddfa fawr yn seiliedig ar fanwerthwyr yn trefnu prydles 25 mlynedd gydag adolygiadau rhent tuag i fyny bob pum mlynedd, y câi eu ffrwd incwm ei phrynu gan gronfeydd pensiwn a chwmnïau yswiriant. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa honno wedi newid, gan nad yw manwerthwyr yn cymryd y risgiau hynny mwyach: felly mae'n llawer anos buddsoddi yn y farchnad gan nad yw datblygwyr yn gallu dod o hyd i brynwyr i brynu'r asedau ar ôl iddynt eu datblygu.¹²¹

96. Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bryderon bod arian uniongyrchol i ddatblygwyr drwy'r Grantiau Buddsoddi Trefol neu'r Grantiau Adfywio Trefol wedi dod i ben pan unwyd Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cymru. Roedd yr awdurdod lleol hefyd o'r farn bod anghysondeb a newid mewn cymorth ariannol gan y Llywodraeth ar gyfer canol trefi wedi golygu bod cynllunio gwaith adfywio hirdymor bron yn amhosibl.¹²²

97. Nododd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru fod gostyngiadau mewn cyllidebau yn debygol o'i gwneud yn anos i

¹¹⁹ Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cymru paragraff 6.6

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig

¹²¹ Cofnod y Trafodion paragraff 79, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig CBS Caerffili paragraff 5

awdurdodau lleol ddatblygu prosiectau adfywio yn seiliedig ar dreftadaeth a'u cyflwyno i'w hystyried yn y dyfodol. Nododd y sefydliad fod pawb sy'n ymwneud ag adfywio ffisegol yn ailystyried y broses mewn modd radical.¹²³

98. Tynnodd CLILC sylw at y broblem lle roedd ffynonellau gwahanol o arian ar gyfer adfywio yn dueddol o dargedu ardaloedd daeryddol gwahanol, gyda blaenoriaethau, dulliau gweinyddu, rheoli a strwythurau gwahanol (a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd o bosibl). Dadleuodd felly fod angen fframwaith adfywio cenedlaethol cliriach a chydgyssylltu'r arian sydd ar gael yn well.¹²⁴ Dadleuodd Cyngor Sir Penfro hefyd y dylid symleiddio ffynonellau ariannu ar gyfer adfywio canol trefi.¹²⁵

99. Cydnabu tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y bydd rhai prosiectau adfywio lle na fydd y benthyciadau neu'r gwarantau sydd ar gael yn ddigon i'r sector preifat fuddsoddi ynddynt ac o dan yr amgylchiadau hynny, y bydd angen grantiau neu ymyriadau eraill i lenwi'r bylchau.¹²⁶ Fodd bynnag, yn ystod y sesiwn graffu a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, eglurodd swyddogion mai dim ond yn yr Ardaloedd Adfywio Strategol y byddai arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i lenwi bylchau.¹²⁷

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol a chymunedau i fod yn rhagweithiol wrth chwilio am ffynonellau buddsoddi ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi a chael gafael arnynt lle nad oes arian cyhoeddus ar gael.

Rhyddhad Ardrethi Busnes

100. Mynegodd llawer o bobl a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn bryderon am ardrethi busnes, a'r effaith ar fusnesau bach yn benodol. Ym mis Rhagfyr 2009, cyflwynodd Siambr Fasnach Arberth ddeiseb i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith o sut y byddai'r newidiadau mewn gwerthoedd ardrethol yn effeithio ar fusnesau yn y dref.¹²⁸ Pan wnaethom ymweld â'r dref, clywsom fod ardrethi busnes rhai busnesau

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig Cronfa Dreftadaeth y Loteri paragraff 7.5

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC paragraff 13

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Penfro

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru Atodiad 1

¹²⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 74, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹²⁸ Deiseb P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth

wedi codi mwy na 200 y cant, ond roedd yn amlwg bod peth dryswch ymhlith y gymuned fusnes leol am y ffordd yr oedd y system ardrethi busnes yn gweithio a faint o ddylanwad y gallai Gweinidogion Cymru ei gael.¹²⁹

101. Mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran ardrethi busnes (ardrethi annomestig) yn gymhleth ac mae'r prif fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru yn gymwys i Gymru a Lloegr o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Deddf 1988').

102. Mae gan Weinidogion Cymru rai pwerau gweithredol mewn perthynas ag ardrethi busnes, gan gynnwys y gallu i bennu'r lluosydd annomestig cenedlaethol (sy'n ffactor allweddol wrth gyfrifo biliau ardrethi) bob blwyddyn o dan Ddeddf 1988. Yn bwysicach, mae gan Weinidogion Cymru bwerau gweithredol i ddarparu rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru. Caiff y rhyddhad hwn ei gymhwyso i filiau ardrethi gan awdurdodau lleol a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y safleoedd busnes hynny sy'n gymwys. Er enghraifft, mae safleoedd elusennau cofrestredig neu glybiau chwaraeon amatur cymunedol a ddefnyddir at ddibenion elusennol yn gymwys yn awtomatig am ryddhad ardrethi busnes gorfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru gwerth 80 y cant.

103. Mae gan awdurdodau lleol bwerau disgrisiwn i gynyddu faint o ryddhad sydd ar gael i elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol ran neu'r cyfan o'r 20 y cant sy'n weddill, a darperir 25 y cant o unrhyw arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.¹³⁰ Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddisgrisiwn i ddarparu rhyddhad ardrethi hyd at 100 y cant ar gyfer sefydliadau dielw.¹³¹

104. Dywedodd y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi wrthym fod rhai datblygiadau ar gyrion trefi mewn rhai rhannau o'r DU yn cael budd o eithriadau ardrethi penodol nad ydynt ar gael i ddatblygiadau canol tref, er enghraifft, ni chodir ardrethi ar feysydd parcio ar gyrion trefi ar yr amod eu bod yn parhau am ddim i ddefnyddwyr.

105. Eglurodd tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bro Morgannwg bwysigrwydd ardrethi busnes:

¹²⁹ Atodiad B

¹³⁰ Llywodraeth Cymru, Non-Domestic Rates: Guidance on Rate Relief for Charities and Other Non-Profit Making Organisations

¹³¹ Business Cymru, Trosolwg o gynlluniau rhyddhad ardrethi

“Business rates and employers’ National Insurance Contributions are taxes that, with the exception of a few exemptions, business owners must often pay upfront and regardless of whether or not the business is making a profit. These taxes increase costs and importantly the level of risk for businesses, and as a result act as a significant barrier to entrepreneurialism that is desperately needed to aid the recovery of traditional town centres.”

106. Dadleuodd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr fod cost gyfredol ardrethi busnes yn y prif ardaloedd manwerthu yn atal busnesau manwerthu newydd rhag sefydlu yn ogystal ag amrywiaeth ym maes manwerthu a chyfleoedd manwerthu arbenigol annibynnol. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y canlynol:

“The optimum business mix will need to include independent local traders as well as national multiple retailers. Independent local traders can help to develop niche markets and encourage local supply chain development which will help to generate a more sustainable local economic base and distinct sense of place.”¹³²

107. Un o'r dadleuon a glywsom oedd pe bai ardrethi'n cael eu gostwng, gellid annog busnesau, yn enwedig busnesau llai. Prif neges y Ffederasiwn Busnesau Bach, er enghraifft, oedd ei bod yn well gostwng ardrethi busnes i lefel fforddiadwy yn hytrach na wynebu sefyllfa lle mae ardrethi uwch yn mynd law yn llaw â lefelau meddiannaeth is mewn trefi. Awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau Bach y gellid defnyddio refeniw a gynhyrchir gan fanwerthwyr mwy o faint ar gyrion trefi i sybsideiddio busnesau bach.¹³³

108. Ar y llaw arall, dadleuwyd y gallai effaith newidiadau mewn ardrethi busnes mewn un ardal ddisodli'r effaith ar ardaloedd eraill. Roedd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru felly o blaid sefydlu trefniant unedig ledled Cymru.¹³⁴

109. Dadleuodd CLILC y gellid ychwanegu at grantiau gorfodol gan Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio grantiau dewisol gan awdurdodau

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig FSB

¹³⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 81, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

lleol, fel y gellid defnyddio ardrethi busnes i gefnogi busnesau lleol.¹³⁵ Cyfeiriodd y papur gan Gomisiwn Dylunio Cymru at dir mawr Ewrop lle mae graddfeydd prisio ardrethi busnes hyblyg neu symudol sy'n seiliedig ar faint y busnes dan sylw wedi'u defnyddio mewn rhai ardaloedd i gynorthwyo gweithredwyr a manwerthwyr annibynnol llai.¹³⁶

110. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru y gall anghydbwysedd o ran y mathau o ddefnydd manwerthu arwain at ddirywiad mewn canol trefi penodol - er enghraifft os oes gormod o siopau elusen a gormod o safleoedd lledfanwerthu megis arcedau diddanu a siopau betio.¹³⁷

111. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach y canlynol wrthym:

“We have highlighted the fact that there currently does not seem to be a commitment to look not only at business rate relief but also possibly at a new form of business taxation or business charging that focuses on value for money and helping businesses to grow their turnover, rather than on what can be an arbitrary valuation of a building.”¹³⁸

112. Deallwn fod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrthi'n ymgynghori ar ardoll a fydd yn gymwys i'r safleoedd manwerthu â'r gwerth uchaf. Bwriedir i'r ardoll arfaethedig gael ei ddefnyddio i ymestyn y rhyddhad ardrethi busnesau bach a bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno'r ardoll a gynigir.

113. Ar 2 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y byddai'n sefydlu panel annibynnol, wedi'i gadeirio gan yr Athro Brian Morgan, i ystyried y polisi ardrethi busnes cyfredol yng Nghymru a ph'un a yw'n diwallu anghenion busnesau yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r fenter hon, a deallwn y bydd y panel yn cyflwyno adroddiad ym mis Chwefror 2012.

114. Gwnaeth ein taro y gellid cyfrifo ardrethi busnes ar gyfer busnesau a leolir mewn canol trefi ar sail elw yn hytrach na gwerth ardrethol. Y cyngor cyfreithiol a gawsom oedd bod trethi o'r fath yn rhan o gymhwysedd San Steffan, felly nid oes gan Gynulliad

¹³⁵ Cofnod y Trafodion paragraff 221, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 1.4

¹³⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 43, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau deddfu. Fodd bynnag, cawsom ein cynghori hefyd fod gan y Cynulliad prima facia (ar yr olwg gyntaf), y gallu i ddeddfu mewn perthynas ag ardrethi annomestig (busnes) yn gyffredinol o dan Bwnc 12 (Llywodraeth Leol) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys cyllid llywodraeth leol.

Rydym yn argymhell bod panel annibynnol Llywodraeth Cymru ar ardrethi busnes yn ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y broses o arfer pwerau disgresiwn, gyda'r nod o wella'r amrywiaeth o fusnesau manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi a'u hansawdd.

115. Nid oes amheuaeth y gall awdurdodau lleol hefyd chwarae rhan allweddol yn y maes hwn. Er enghraifft, cawsom wybod gan Ardal Gwella Busnes Abertawe am Gynllun Bywiogrwydd Busnes Canol Tref Rotherham sydd â'r nod o ddenu manwerthwyr annibynnol newydd ac arbenigol i ddechrau busnes drwy gynnig cyfraniadau ariannol tuag at gostau rhent a gwella cyfalaf. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig 50 y cant i ymgeiswyr llwyddiannus tuag at gostau rhent yn y flwyddyn gyntaf; 25 y cant tuag at gostau rhent yn yr ail flwyddyn; a 75 y cant tuag at gostau gosod/gwella blaen siop neu ddodrefn stryd/caffi newydd.¹³⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu cynllun peilot, o fewn rheolau cystadlu'r UE ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a pherchenogion eiddo, sy'n helpu busnesau newydd i sefydlu mewn canol trefi.

Arian Ewropeaidd

116. Er bod Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd wedi'u defnyddio i ariannu prosiectau adfywio canol trefi yng Nghymru, clywsom gan CLILC na ellir defnyddio arian Ewropeaidd ar hyn o bryd i danategu datblygiadau manwerthu.¹⁴⁰

117. Cadarnhaodd cyngor gan ein Gwasanaethau Cyfreithiol nad yw Rheoliadau'r UE yn gwahardd y sector manwerthu rhag cael cymorth ariannol gan raglenni cymorth y sector cyhoeddus yn benodol. Fodd bynnag, mae awdurdodau cyhoeddus yn awyddus i osgoi dadleoli gweithgarwch economaidd ac o ran Cronfa Datblygu Rhanbarthol

¹³⁹ Cofnod y Trafodion paragraff 192, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 216, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

Ewrop, mae hyn yn un o'r gofynion sy'n llywodraethu'r defnydd o'r gronfa. Ystyrir bod cymorth i fusnesau manwerthu yn achosi dadleoli yn gyffredinol ac felly nid yw fel arfer yn gymwys ar gyfer cymorth busnes.

118. O ran y defnydd o Gronfeydd Strwythurol gan y sector preifat, nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y canlynol:

“Many business people are choosing proactively to be part of their local communities against, almost, the prevailing wind of the economy and are choosing, often at their own expense, to stay and are rooted and grounded in their communities. So, if they are not being used to deliver the kind of benefits that structural funds should be giving us, then there is probably something wrong.”¹⁴¹

119. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wrthi'n ystyried y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau ar ddechrau 2012. Bydd ein hadroddiad yn treiddio'n fanwl i'r dewisiadau gwleidyddol y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud fel rhan o'r crynodiadau thematig a nodir yn y Rheoliadau newydd.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, wrth negodi'r cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2010, yn ceisio sicrhau bod y Rheoliadau newydd yn ddigon hyblyg i alluogi'r Cronfeydd i gael eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau adfywio canol trefi yn ystod y cylch nesaf.

Ardaloedd Gwella Busnes

120. Cyrff a arweinir gan fusnesau ac a ariennir gan fusnesau yw Ardaloedd Gwella Busnes ac a sefydlwyd i wella ardal fasnachol ddiffiniedig. Mae un Ardal Gwella Busnes yng Nghymru ar hyn o bryd, a grëwyd gan fusnesau yng nghanol dinas Abertawe yn 2006 ac sydd wedi'i hystyried yn ddiweddar am ail dymor hyd at fis Awst 2016;¹⁴² mae Ardal Gwella Busnes arall yn cael ei datblygu ym Merthyr Tudful, wedi'i chefnogi gan raglen Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Mae'r

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion paragraff 63, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Dinas a Sir Abertawe paragraff 3.4

sefyllfa hon yn wahanol i'r Alban lle mae 11 o Ardaloedd Gwella Busnes wedi'u sefydlu, 17 yn cael eu datblygu a thua 30 ar y gweill.¹⁴³

121. Mae Ardal Gwella Busnes Abertawe yn fusnes ynddo'i hun ac fe'i rheolir gan fwrdd o gyfarwyddwyr a ffurfiwyd o blith rhanddeiliaid yng nghanol y ddinas a enwebwyd gan ei haelodau sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd am ddim. Ariennir yr Ardal yn gyfan gwbl drwy ardoll 1 y cant a delir gan aelodau ar sail eu gwerth ardrethol. Cesglir yr arian hwn gan yr awdurdod lleol ar ran Ardal Gwella Busnes Abertawe.

122. Cawsom safbwyntiau gwahanol ar y potensial i wneud mwy o ddefnydd o Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod tystiolaeth gynyddol i ddangos bod rhai o'r Ardaloedd Gwella Busnes mwyaf llwyddiannus yn cael eu sefydlu mewn canol trefi llai, a bod y Llywodraeth yn ystyried cyfleoedd i gyflwyno Ardaloedd Gwella Busnes mewn rhannau eraill o Gymru.¹⁴⁴

123. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam mai'r farn gyffredinol mewn perthynas ag Ardal Gwella Busnes ymhlith y gymuned fusnes yn y dref oedd:

“They would welcome the ability to manage a proportion of the income from rates payable for themselves (through an appropriate structure and working with Town Centre Management from the Council) but that, this time in particular, this money should be ring-fenced from the current rates payable and not be an additional charge.”¹⁴⁵

124. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd o'r farn na ellid cymhwyso'r model Ardal Gwella Busnes yn eang gan fod y rhan fwyaf o fusnesau canol tref yng Nghymru yn cael trafferth talu eu hardrethi busnes sylfaenol a bod darbwylllo manwerthwyr bach bod angen iddynt dalu mwy o dreth yn anodd iawn. Fodd bynnag, roedd CLILC o'r farn y gallai fod yn werth ceisio sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes mewn ardaloedd lle roedd siambr fasnach leol drefnus ac ardal dalgylch eithaf llewyrchus.¹⁴⁶

¹⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig Ardal Gwella Busnes Abertawe

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru Atodiad 1

¹⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 228, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

125. Dywedodd Boots UK wrthym am fentrau yng Nghernyw a'r Alban lle mae unigolion wedi sefydlu Ardal Gwella Busnes ac yna wedi ei throsglwyddo i reolwr. Drwy wneud hynny, roedd yn bosibl meithrin sgiliau ym maes sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes a oedd yn wahanol iawn i sgiliau rheoli Ardaloedd Gwella Busnes.¹⁴⁷ Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod ganddo safbwynt agnostig mewn perthynas ag Ardaloedd Gwella Busnes:

“It is leadership with the businesses that is important; we should not lose too much sleep over the mechanism for doing that.”¹⁴⁸

126. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi fod ein hymchwiliad yn cynnig y cyfle i Gymru ddatblygu dull mwy arloesol o greu Ardaloedd Gwella Busnes ac i ddod yn rhan o'u hesblygiad, ond dadleuodd na fyddai Ardaloedd Gwella Busnes yn briodol i bob canol tref yng Nghymru. Dadleuodd Boots hefyd y canlynol:

“The BID model “of business involvement and commitment to regeneration and sustainability would work well and have widespread benefits.[...]indeed experience suggests BIDs may be more effective in these smaller communities where a sense of local ownership is greater.”¹⁴⁹

127. Dywedodd Ardal Gwella Busnes Abertawe wrthym mai'r anhawster wrth sefydlu Ardal Gwella Busnes yw siarad â busnesau a sicrhau'r gweithlu; mae hynny'n cymryd amser ac mae angen llawer o gymorth.¹⁵⁰ Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd beth anfodlonrwydd gydag Ardal Gwella Busnes Abertawe ymhlith rhai o'i aelodau.¹⁵¹ Gwnaeth ein taro felly y gall fod gwahaniaethau ar gyfer is-barthau o fewn Ardal Gwella Busnes a gwahaniaethau rhwng aelodau Ardal Gwella Busnes, y gall fod angen diwallu eu hanghenion mewn modd mwy craff.

128. Syndod oedd clywed na fanteisiwyd ar arbenigedd a phrofiad Ardal Gwella Busnes Abertawe ar gyfer Ardal Gwella Busnes

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 251, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 59, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Boots paragraff 6

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 118, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig FSB

arfaethedig Merthyr Tudful,¹⁵² ond clywsom yn ddiweddarach gan y Gweinidog fod trafodaethau wedi'u cynnal yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gydag Ardal Gwella Busnes Abertawe.¹⁵³

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad llawn a thryloyw o effeithiolrwydd Ardal Gwella Busnes Abertawe ac yn ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru ymhellach.

Marchnata a brandio

129. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“Marketing, branding and image making is a fundamental aspect of the regeneration of town centres. However, the quality in the design of what has been created in Wales with regard to lighting, signage, street furniture etc has been sometimes inconsistent with regard to both the brand proposed, the audience it was intended to serve, and with regard to its sustainability.”¹⁵⁴

130. Pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig mai'r sylwedd nid y slogan sy'n bwysig yn yr hirdymor.¹⁵⁵ Nododd Dinas a Sir Abertawe hefyd y canlynol:

“Marketing and promotions cannot disguise weaknesses in the fundamental offer.”¹⁵⁶

131. Clywsom gan Ardal Gwella Busnes Abertawe ei bod yn gallu gweithio mewn partneriaeth i farchnata canol y ddinas a busnesau lleol ar Twitter a Facebook a thrwy lunio a dosbarthu taflenni.¹⁵⁷ Nododd tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y canlynol:

¹⁵² Cofnod y Trafodion paragraff 127, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁵³ Cofnod y Trafodion paragraff 84, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig CREW paragraff 4.7

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig paragraff 6

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Dinas a Sir Abertawe paragraff 8.2

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion paragraff 197, 6 Hydref am 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

“A strong brand for the town is important and all public and private bodies involved in the town centre should sign up to the one brand.”

132. O ran marchnata a thwristiaeth, dywedodd Consortiwm Manwerthu Prydain y canlynol wrthym:

“Some of the strongest ideas that we have seen have come through local partnerships, such as loyalty schemes within a given retail location, where a loyalty card gives you discounts within participating businesses, or allows you to accumulate points that you can use for different sorts of activity or expenditure.”¹⁵⁸

133. Clywsom gan Gomisiwn Dylunio Cymru fod partneriaeth Bro Rhuthun wedi gweithio gyda busnesau lleol i lunio gwefan, cynhyrchu bagiau jiwt a lansio cerdyn teyrngarwch ar gyfer y dref. Mae'r bartneriaeth wedi nodi pensaerniaeth hanesyddol a chyfoes Rhuthun, ei Chanolfan Grefft a'i bwytai a'i gwestai o ansawdd uchel fel ffactorau allweddol sy'n denu ymwelwyr, manwerthwyr a buddsoddwyr i'r dref.¹⁵⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru drwy Croeso Cymru yn annog partneriaethau tref i farchnata eu nodweddion gwerthu unigryw megis treftadaeth bensaernïol ac ansawdd amgylcheddol, cynnyrch lleol a diwylliant lleol, gan gynnwys grwpiau o drefi o fewn ardal o bosibl fel y gall eu nodweddion gwahanol ategu ei gilydd. Gallai hyn fod yn rhan o gynllun canol y dref a argymhellwyd gennym uchod.

Mesur llwyddiant

134. Dywedwyd wrthym fod diffyg dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt i fesur prosiectau adfywio canol trefi llwyddiannus, a hynny'n hanesyddol, yn aml am fod ffrydiau ariannu yn newid mor aml.¹⁶⁰ Pan ofynnwyd i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth am ddiffyg fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer prosiectau adfywio, cyfaddefodd fod gan feirniaid bwynt yn hyn o

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion paragraff 163, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru a Chofnod o Drafodion paragraffau 192-193, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion paragraff 194, 28 Medi 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

beth, a'i fod o'r farn bod gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru rôl i'w chwarae wrth fynd â'r gwaith hwn rhagddo.¹⁶¹

135. Argymhellodd Comisiwn Dylunio Cymru y dylid defnyddio system meincnodi trefi a dadleuodd fod manteision amlwg wedi'u cofnodi lle mae systemau dylunio a meincnodi trefi da ar waith.¹⁶²

“Town benchmarking is a simple toolkit; I think that it has only 12 indicators. Those indicators range from parking to the number of empty units, and the toolkit allows you a certain time to measure. Once those have been identified and informed a strategy, systematic action can be taken to address those. That is very much a local tool. While we might look at GVA or GDP figures nationally, at a local level a much more simplified process, such as town benchmarking, is really useful to galvanise activity for local authorities and for people who might be trying to influence change. Statistics and performance indicators over time at Government level and local authority level are often very difficult for people to access, understand and use effectively.”¹⁶³

136. Argymhellodd CLILC y dylid rhannu'r fframwaith gwerthuso a ddatblygwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel arfer da ar gyfer gwerthuso llwyddiant mentrau adfywio canol trefi ledled Cymru.¹⁶⁴ Awgrymodd Consortiwm Manwerthu Prydain fod angen monitro iechyd canol trefi'n effeithiol.¹⁶⁵ Awgrymodd y gallai'r mathau o ddangosyddion gynnwys:

“Footfall, vacancy rates, new business openings, business closures, longevity of businesses, retail employment levels and other employment levels within an urban centre. You could use movements in rateable value as a proxy. As a more subjective measure, I would suggest something on the operation of a successful partnership.”¹⁶⁶

137. Awgrymodd Siambr Fasnach Arberth hefyd y gallai dangosyddion gynnwys swyddi gwag mewn siopau, siopau'n cau, siopau newydd yn

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion paragraff 113, 24 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig Comisiwn Dylunio Cymru

¹⁶³ Cofnod y Trafodion paragraff 167, 2 Tachwedd 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC tudalen 18

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig BRC

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 168, 6 Hydref pm 2011, Pwyllgor Menter a Busnes

agor, newid o ddefnydd preswyl i ddefnydd manwerthu/masnachol, achosion o fethdal, swyddi llawn amser a rhan amser yn y dref, diweithdra, y defnydd a wneir o feysydd parcio a'u refeniw.¹⁶⁷

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru lunio fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio, datblygu a chyflawni prosiectau adfywio canol trefi lle y gellir pennu amcanion a thargedau clir; casglu data, mesur canlyniadau ac effeithiau; a gwerthuso a chymharu perfformiad a llwyddiant.

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Siambr Fasnach Arberth paragraff 9

Atodiad A - Cylch Gorchwyl Ymchwiliad

- Pa gamau a gymerwyd i gyflawni prosiectau adfywio canol trefi a'u hariannu yng Nghymru? A oes gwersi i'w dysgu o fannau eraill?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddi i helpu i adfywio canol trefi yng Nghymru?
- Sut y caiff buddiannau a gweithgareddau cymunedau, busnesau, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru eu nodi a'u cydgysylltu wrth ddatblygu a gweithredu prosiectau adfywio canol trefi?

Galwodd y Comisiwn am dystiolaeth gan wahodd partion â diddordeb i ymateb i'r cwestiynau uchod a rhannu eu safbwyntiau ar y materion canlynol:

- Y rolau y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn eu chwarae wrth adfywio canol trefi.
- I ba raddau y mae busnesau a chymunedau yn cymryd rhan mewn prosiectau neu fentrau adfywio canol trefi a arweinir gan y sector cyhoeddus, ac i'r gwrthwyneb.
- Y ffactorau sy'n effeithio ar y cymysgedd o safleoedd preswyl, masnachol a manwerthu sy'n bodoli mewn canol trefi - er enghraifft, effaith polisi ardrethi busnes; patrymau o ran nifer yr ymwelwyr; a materion yn ymwneud ag economi'r nos ac economi'r dydd mewn canol trefi.
- Effaith safleoedd manwerthu ar gyrion trefi ar ganol trefi gerllaw.
- Y defnydd o ffynonellau ariannu a datrysiadau ariannol arloesol i gyfrannu at waith adfywio canol trefi - gan gynnwys Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio; y defnydd o Ardaloedd Gwella Busnes; Cronfeydd Strwythurol; buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector preifat.
- Pwysigrwydd trafndiaeth gynaliadwy ac integredig mewn canol trefi - gan gynnwys dulliau rheoli traffig, parcio a mynediad.
- Effaith bosibl marchnata a delwedd ar brosiectau adfywio canol trefi - megis twristiaeth, arwyddion, celf gyhoeddus, dodrefn strydoedd, goleuadau a phryderon yn ymwneud â diogelwch.
- I ba raddau y gall mentrau adfywio canol trefi geisio darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl leol.
- Pa fesurau y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant mentrau a gynhelir i adfywio canol trefi.

Atodiad B - Nodyn ar yr Ymweliad Ymchwiliol ag Arberth

Cefndir

Ymwelodd y Pwyllgor Menter a Busnes ag Arberth ar 10 Tachwedd 2011, fel rhan o'i ymchwiliad i'r gwaith o adfywio canol trefi. Cyfarfu'r Pwyllgor ag aelodau lleol o'r Siambr Fasnach a chynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro. Tra yn Arberth, ymwelodd y Pwyllgor hefyd â nifer o siopau i drafod materion yn ymwneud ag adfywio canol y dref gyda phobl fusnes leol.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cytuno i ystyried deiseb Siambr Fasnach Arberth fel rhan o'r ymchwiliad hwn (gweler isod).

Nododd y Pwyllgor er bod Arberth yn enghraifft gadarnhaol o brosiect adfywio, nad oedd o reidrwydd yn enghraifft nodweddiadol o dref yng Nghymru a'i bod yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth.

Materion Allweddol

Yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor codwyd nifer o faterion allweddol. Soniodd llawer o bobl am y cydbwysedd bregus rhwng llwyddiant a methiant, a'r angen am gymorth uniongyrchol i sicrhau bod busnesau lleol yn parhau'n hyfyw.

Roedd ymdeimlad cyffredinol fod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yn cael effaith ar y dref, a oedd yn gwneud pethau'n anodd, ond bod rhai o'r masnachwyr wedi llwyddo i addasu drwy arallgyfeirio eu cynhyrchion.

O ystyried datblygiad technoleg a'r angen i siopau allu masnachu ar-lein, cafwyd cais i sicrhau bod gwasanaeth band eang cyflym ar gael yn Arberth. Cydnabuwyd hefyd fod angen gwell signal ffôn symudol am fod pobl yn canfod llawer mwy am leoedd pan eu bod allan erbyn hyn - sy'n allweddol i dwristiaeth leol.

Teimlwyd bod ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol i sicrhau ymgrych adfywio lwyddiannus - ystyriwyd bod Arberth yn ddiflas ac wedi dirywio yn adroddiad Tavistock yn 1980, heb lawer o gyfleoedd cyflogaeth nac unrhyw rôl economaidd, ond ers hynny mae'r dref wedi'i hadfywio'n llwyddiannus, a bu camau gweithredu gan y gymuned leol ac unigolion allweddol a'u gallu i hunandrefnu yn gymorth mawr yn hynny o beth.

Trafnidiaeth

Roedd nifer o bryderon bod yr orsaf drenau wedi'i lleoli ychydig yn rhy bell o ganol y dref a bod y daith ar droed yn beryglus ac yn annymunol. Teimlai pobl mai galw cyfyngedig oedd am drafnidiaeth gyhoeddus gan awgrymu y dylid yn hytrach fuddsoddi mwy mewn gwaith i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag argaeledd lleoedd parcio, taliadau parcio a llif traffig drwy'r dref

ac o'i hamgylch. Roedd pryder mawr ynghylch yr awgrym y dylid adeiladu ffordd osgoi o amgylch Arberth.

Cafwyd cefnogaeth i'r syniad o gael trê'n stêm fel atyniad i ymwelwyr, a allai helpu i ddenu teuluoedd i'r dref.

Ardrethi Busnes

Yn 2009, cyflwynodd Siambr Fasnach Arberth ddeiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â sut y byddai'r newidiadau mewn gwerthoedd ardrethol yn 2010 yn effeithio ar fusnesau yn y dref. Roedd masnachwyr yn y dref yn teimlo eu bod wedi dioddef yn sgîl eu llwyddiant eu hunain - gan fod rhai wedi gweld cynnydd o fwy na 200 y cant yn eu hardrethi.

Gofynnodd busnesau am fwy o atebolrwydd o ran sut y caiff ardrethi busnes eu defnyddio - gan nad yw'n ymddangos bod y cynnydd sylweddol wedi'i adlewyrchu yn yr arian a fuddsoddir yn lleol.

Cafwyd llawer o sylwadau am yr anhawster i apelio yn erbyn cynnydd mewn ardrethi busnes - dywedodd un masnachwr wrthym na fyddai Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn gwrandao er gwaethaf y ffaith bod tri asiant tai annibynnol wedi prisió'r eiddo yn llawer is. Roedd masnachwr arall wedi llwyddo i ennill y frwydr yn erbyn y cynnydd yn ei ardrethi ac wedi cael gostyngiad ddwywaith - ond teimlai ei bod yn broses anodd nad oedd pawb yn ei deall. Nodwyd bod angen i fwy o gymorth ac adnoddau fod ar gael i bobl a oedd am apelio yn erbyn y penderfyniad.

Roedd anfodlonrwydd sylweddol am y ffaith bod penderfyniadau am ardrethi busnes yn cael eu gwneud bob pum mlynedd, gan nad yw'r diffyg hyblygrwydd hwn yn ystyried newidiadau yn yr hinsawdd economaidd nac amrywiolion eraill.

Roedd rhai dulliau gweithredu arloesol wedi'u mabwysiadu megis un busnes a oedd wedi rhannu ei safle yn lotiau ar wahân a oedd wedyn yn cael eu prisió ar wahân.

Tâl am Fagiau Siopa

Roedd peth dryswch ymhlith masnachwyr am y tâl am fagiau siopa, er enghraifft faint o'r arian sy'n agored i TAW; p'un a oedd angen codi tâl am ddeunydd pacio wrth anfon nwyddau a brynir ar y we; p'un a allant wneud rhoddion uniongyrchol i elusen neu a oes angen rhoi'r arian drwy'r til a sut y byddai'r tâl yn cael ei blismona. Yn ogystal â'r dryswch, roedd nifer o fasnachwyr yn anfodlon ar y tâl yn gyffredinol gan eu bod yn teimlo ei fod yn lleihau eu gallu i farchnata. Fodd bynnag, roedd llawer o'r bobl y siaradodd y Comisiwn â hwy o blaid y polisi.

Cynllunio

Ystyriwyd bod yr angen i gynllunio'n effeithiol yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â natur fregus trefi a'r ffin denau rhwng llwyddo a methu. Codwyd nifer o faterion ynghylch cynllunio, ond roedd yn ymddangos bod peth dryswch am briod rolau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Mynegwyd rhwystredigaeth am y modd y gall cyfyngiadau cynllunio mewn cytundeb Adran 106 newid. Er enghraifft, honnwyd nad oedd y siop Spar yn Bluestone i fod ar agor i'r cyhoedd i gychwyn, ond fe'i hagogwyd yn ddiweddarach i'r cyhoedd ar ddydd Gwener a dydd Llun - a bellach mae ar agor i bawb bob dydd.

Mynegwyd pryderon mawr am y cynnig i adeiladu archfarchnad ar gyrion canol y dref, oherwydd teimlwyd y gallai hyn amharu ar fasnachwyr annibynnol lleol.

Awgrymwyd bod y system gynllunio yn gwyro tuag at gefnogi busnesau mawr i raddau helaeth - felly roedd angen systemau i alluogi busnesau bach i sefydlu a datblygu. Roedd aelodau o'r Siambr Fasnach yn awyddus i wybod pam na ellid defnyddio siopau lleol llwyddiannus ag enw da megis cigydd neu siop ddillad gadwyn fel siop angor mewn prosiect adfywio - neu o leiaf gael peth cymorth i agor mewn ardaloedd newydd fel y mae'r prif siopau cadwyn.

Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1307>

28 Medi 2011

Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

6 Hydref 2011 - bore

Y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi
Ardal Gwella Busnes Abertawe
Boots

6 Hydref 2011 - prynhawn

Ffederasiwn Busnesau Bach
Consortiwm Manwerthu Prydain

2 Tachwedd 2011

Sustrans
Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
Comisiwn Dylunio Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

16 Tachwedd 2011

Ymweliad â Siambr Fasnach Arberth

24 Tachwedd 2011

Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1522>

Sefydliad

AECOM Ltd

Age Cymru

Andrew Shufflebotham

Busnes yn y Gymuned

Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Prifysgol Morgannwg

Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru

Cylchgrawn UK Progressive

Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir y Fflint

David Lloyd Owen

Dinas a Sir Abertawe

Diverse Cymru

Dyfrffyrdd Prydain

Evocati Limited

Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro

Fferyllfa Neyland

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Gordon Gibson
Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd
Jan Miller
Liz Davies
Mike Brain
Mott MacDonald
Rockwool Ltd
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Sefydliad y Tywysog dros yr Amgylchedd Adeiledig
Siambr Fasnach Aberdâr a'r Cylch
Siambr Fasnach Arberth
Simon Brogan
The Means
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru